# Y Bryn ONSHORE WIND FARM

## COMMUNITY OWNERSHIP, LOCAL BENEFITS AND SUPPLY CHAIN

## PERCHNOGAETH GYMUNEDOL, BUDDION LLEOL A CHADWYN GYFLENWI

Y Bryn wind farm offers opportunities for considerable community benefits of various kinds, including the direct benefit of investment in the local area (and supply chain), and opportunity for employment generation.

Mae fferm wynt Y Bryn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer buddion cymunedol o bob math, gan gynnwys budd uniongyrchol buddsoddiad yn yr ardal leol (a'r gadwyn gyflenwi), a chyfle i gynhyrchu cyflogaeth.








### Community Ownership

Welsh Government has set targets for Community ownership in renewables stating that it would like to see 1GW of community owned renewable energy by 2030.

Working in partnership with local energy co-operative Awel Aman Tawe and the Welsh Government Energy Service, we are exploring the potential for providing an up to 20% local ownership stake, available for investment by local individuals and public sector bodies.

**This is a subject we are keen to hear your thoughts on.**

### Perchnogaeth Gymunedol

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedi ar gyfer perchnogaeth gymunedol mewn ynni adnewyddadwy gan ddatgan y byddai'n dymuno gweld 1GW o ynni adnewyddadwy o dan berchnogaeth gymunedol erbyn 2030.

Wrth weithio mewn partneriaeth gyda chwmni cydweithredol ynni lleol Awel Aman Tawe a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, rydym yn chwilota'r posibilrwydd o gynnig cyfran perchnogaeth leol o hyd at 20%, fyddai ar gael ar gyfer buddsoddi gan unigolion lleol a chyrff sector cyhoeddus.

**Rydym yn eiddgar iawn i glywed eich barn ynglŷn â'r pwnc yma.**

### Community Benefit Fund

As with other similar such projects, there will be contributions made towards a Community Benefit Fund. Working with support from Neath Port Talbot Council for Voluntary Service (NPTCVS) and Bridgend Association of Voluntary Organisations (BAVO), we are currently exploring ways in which to ensure that this fund is appropriately set up to ensure ease of access and delivery once operational.

We have committed to contribute £8,000/MW (per Mega Watt) to a community benefit fund, which is far in excess of industry standard of £5,000/MW.

We would be pleased to hear thoughts on how this can be developed to ensure as much local benefit, for current and future generations, as possible.

### Cronfa Budd Cymunedol

Yn yr un modd â chyda phrojectau tebyg, caiff cyfraniadau eu gwneud i fynd tuag at Gronfa Budd Cymunedol. Wrth weithio gyda chefnogaeth gan Gyngor Castell Nedd Pot Talbot dros Wasanaeth Gwirfoddol a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-Bont ar Ogwr, rydym ar hyn o bryd yn chwilota ffyrdd lle y gallwn sicrhau bod y gronfa hon yn cael ei sefydlu'n briodol er mwyn sicrhau ei bod hawdd cael mynediad ati unwaith ei bod ar waith.

Rydym wedi ymrwymo i gyfannu £8,000/MW (fesul Mega Watt) i gronfa budd cymunedol, sydd lawer yn fwy na'r £5,000/MW a gyfrannir gan y diwydiant fel arfer.

Byddem yn falch iawn o glywed eich barn ynglŷn â sut y gellir datblygu hwn er mwyn sicrhau cymaint o fudd lleol â phosib, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. os yn bosib.

### Other local benefits

Aside from the points noted on this page, we are also actively considering how we may be able to deliver additional local benefit through biodiversity protection and enhancement, improved access to the areas around the site for recreation activities such as mountain biking, hiking and sports, as well as how we can, for example, support local education providers.

Please let us know your thoughts on where you feel we could provide local enhancements such as this.

### Buddion lleol erail

Heblaw am y pwyntiau a nodir ar y dudalen hon, rydym hefyd yn ystyried o difrif sut allwn gynnig budd lleol ychwanegol drwy warchod a mwyhau bio-amrywiaeth, gwella mynediad i ardaloedd o amgylch y safle er dibenion hamdden fel beicio mynydd, cerdded a chwaraeon, yn ogystal â sut allwn, er enghraifft, cefnogi darparwyr addysg lleol.

Byddwch cystal â rhoi gwybod i ni ynglŷn â'ch barn a ble yr ydych chi'n teimlo y gallwn gynnig gwelliannau lleol fel hyn.

**To register your interest and find out more, please contact the project team using the project details provided, or fill out the form on the Project website www.ybryn-windfarm.cymru.**

**Er mwyn cofrestru eich diddordeb a chael gwybod mwy, byddwch cystal â dod i gyswllt â'r tîm project gan ddefnyddio manylion y project a roddir, neu llenwch y ffurflen ar wefan y Project www.ybryn-windfarm.cymru.**

### Supply chain

Coriolis Energy and ESB are also keen to ensure that the sourcing of components, materials, services and supplies originate wherever possible from the host and neighbouring local authorities.

Apprenticeships, site operatives and staff employed locally are also important targets for the Project so we are keen to hear from local suppliers and job seekers as part of our procurement process.

### Cadwyn gyflenwi

Mae Coriolis Energy ac ESB hefyd yn awyddus i sicrhau eu bod yn caffael cydrannau, deunyddiau, gwasanaethau a chyflenwadau o ffynonellau lleol lle bynnag fo'n bosibl o'r awdurdod lleol a'r rhai cyfagos.

Bydd prentisiaethau, gweithwyr safle a staff a gyflogir yn lleol yn dargedi pwysig ar gyfer y Project, felly rydym yn awyddus i glywed gan gyflenwyr a cheiswyr gwaith lleol fel rhan o'n proses caffael.

Awel Aman Tawe community energy

NEATH PORT TALBOT CVS CASTELL-NEDD PORT TALBOT

BAVO Bridgend Association of Voluntary Organisations / Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr

Working with / Gweithio gyda

Gwyliwch ein hymgynghoriad rhithwir a dewch o hyd i fwy o wybodaeth: www.ybryn-windfarm.cymru